

Byrr GRYNHÔAD eglur o'r

8y2 k 21

GREFYDD GRISTIANOGOL

v. 32
2

Ynghyd a gair o

GYNGOR ag ADDYSG

Mewn perthynas I'r

Christian Religion
K

SCHISMATICIAID

Sy'n ymneillduo oddiwrth

EGLWYS LOEGR.



Argraphwyd yn *NULUN*
MDCCXLVII.

Robert Dickson May 4th
Buchanan of Glengyle
Glasgow 1860
from Mr. Williams



Robert Dickson May 4th
Hunnoch arnoch na Gledach
Dim Galen yng Nghymru
Glasgwm i ddeall i'r
Llyfrau hanesyddol
William Williams o Llanrwst

Byrr GRYNHÔAD eglur o'r

GREFYDD GRISTIANOGOL

Ynghyd a gair o GYNGOR ag ADDYSG mewn perthynas J'r SCHISMATICIAID sy'n ymneillduo oddiwrth EGLWYS LOEGR.

Ymae'r Apostol bendigedig St. Paul yn gosod allan sylwedd yr hyn oll sydd angenrheidiol i iechyd-wriaeth dyn, yn yr ychydig eiriau amlwg sydd yn canlyn,

" Ymddangosodd gras Duw, yr hon sy'n dwyn
 " iechydwriaeth i bob dyn, gan ein dyscu i wadu annu
 " wioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr ag yn gy-
 " flawn ag yn dduwiol yn y byd sydd yr awron ; gan
 " ddifgwyl am y gobaith gwynfydedig, ag ymddango-
 " fiad gogoniant y Duw mawr, a'n Jachawdwr Jesu
 " Grift ; Yr hwn ai rhoddes ei hun trosom, i'n prynnu
 " ni oddiwrth bob anwiredd ag i'n puro ni iddo ei hun,
 " yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da, Titus 2.
 " 11, 12, 13, 14.

Felly cynhwysfir y cwbl o'r Grefydd Grifftianogol yn grynnno yn yr ychydig byngciau hyn,

" Credu holl byngciau ffydd Grift, Marc 16. 16, ag
 " yn bennaf credu yn un Duw yr Drindod, y Tad a'r
 " Mab a'r Yspryd Glân ; ymha enw y gorchymwynodd
 " Crist ein bedyddio ni oll wrth ein corphori iwlan
 " Eglwys ef, Matt. 28. 19.

" Caru Duw uwchlaw pob dim mewn nef a daear
 " Matt. 22. 37, a phrofi a dangos ein cariad iddo trwy
 " ei wasanaethu ef a'n galluoedd a'n talentau oll, ag
 " ymfodloni iw ewyllys bendigedig ymhob peth Matt.
 " 26. 39, ag ymgais a'i nawdd a'i ffafri ef yn anad pob
 " dim 2 Cor. 12. 9. Ps. 73. 25, a dibaid-gadw ei holl
 " orchymmynion ef Joan 14. 15 : Joan 6,— a hynny o
 " ddifri' calon, heb ein cynwys ein hunain mewn unrhyw
 " bechod gwirfodd, na mawr na bychan, nag mewn
 " meddwl gair na gweithred, -nag o esceulusdra (Matt.
 " 25. 30; ag 22. 12.) nag o wneuthuriad, ar achos
 " na than escus yn y byd, i Joan 3. 6, 8, 9.

• " Dangos ein cariad diragrith a'n hewyllys dâ tuag at
 " holl ddynol Ryw, Matt. 22. 39, yn gyfeillion,
 " estoniaid, ie ag yn elynion, Matt. 5. 44; a hynny
 " hyd eithaf ein gallu ag ymhob modd y bo cyfleo
 " gennym Gal. 6. 10. Hebr. 13. 16. yn énwedig mewn
 " perthynas iw heneidau a'u hiechydwriaeth, Hebr. 3.
 " 13. Jago 5. 20; a byw yn ddiddig ag yn heddychlon a
 " phawb Rhuf. 12. 18. ag mewn gofyngedig ufuiddod i'n
 " Goruchafiaid a'n Blaeniaid mewn gwlad ag Eglwys,
 " Titus 3. 1. Hebr. 13. 17. Rhuf. 13. 7. Bod o honom
 " yn ymd'rawus a diwyd mewn galwedigaeth gyfreithlon,
 " Ephes. 4. 28. I Tim. 5. 8. yn gywir, yn eirwir ag
 " yn oneist, yn sobr, cymhedrol, diwair ag amyneddgar
 " yn holl yrfa ein bywyd, Tit. 2. 11, 12, gan wrhladd
 " profedigaethau'r byd, y cnawd, a'r Cythrael, a mar-
 " weiddio'n trachwantau drwg Col. 3. 5; a llunio'n
 " bucheddau wrth batrwm Crist ein Prynnwr, yr hwn
 " a gerddodd o amgylch gan wneuthur *daioni*, Actau,
 " 10. 38. Jo. 13. 15; I Petr. 2. 21,— a hynny yn
 " egniol ag yn ffyddlon, beth bynnag a wnelo eraill.

" Dyfal-arferu holl *foddion gras*, i. e. y moddion
 " trwy ba rai y mae ini ddisgwyl ag ymorawl am *ras*
 " *Duw* (er cael o honom *allu* a chymmorth oddiuchod er
 " mwyn Crist, i fod yn wir Gristianogion bucheddol,
 " ag yn *ffrwythlon* ymhob gweithredoedd da, Jago 1.
 " 17. 2 Cor. 3. 5. Jo. 3. 27; ag 15. 5.) scf Hunan-
 " ymholiad, Dirwest, Darlenniad a Gwrandawiad y
 " *Gair*, a Myfyrdod yn yr unrhyw, Ymddiddanion cre-
 " fyddol

" fyddol, Gweddio a Chymminio ; gan gynnal aml
 " goffa ddiolchgar am ddioddefaint Crist trosom, yn y
 " Cymmun bengideg, i Cor. 11. 26. Luc. 22. 19. yr
 " hwn a ordeiniodd ef ei hun er anraethol leschaad i bob
 " Credadyn ediferiol sydd yn glynu wrth ysprydol undeb
 " a Chymdeithas ei Gorff sef ei lan *Eglwys* ef, Ephes.
 " 5. 30. Col. 2. 19. Gal. 2. 20. Joan. 6. 54. Actau,
 " 2. 42. a dibaid-alw am rad Duw ar waith ein hiech-
 " edwriath, sef am gymmorth ei lan Yspryd i'n hadgen-
 " hedlu a'n cryfhau fwyfwy i gyflawni'n dyledswydd,—
 " i ymgadw rhag y drwg,— i drechu pob gelyn-enaid,
 " ag i gynnyddu beunydd ymhob duwioldeb a daioni hyd
 " ddiwedd ein hoes, i Thes. 5. 17. 2 Cor. 12. 9.
 " Hebr. 4. 16. Ephes. 3. 20.

(" Ond rhag twyllo o neb ei enaid trwy roi gormod
 " pwys ar yr wyth *Moddion Gras* a henwyd uchod, ag
 " ynfyd-ffansio mai y nhw ywr *cwbl* sydd raid iddo wrth-
 " ynt oi ran ef i gadw ei enaid ; Cofia nad yw'r *moddion*
 " hynny, er mor llesol a llwyr-anhepcor ydynt, ond
 " megis llaw-forwynnion Crefydd,—ag mai eu bwriad
 " au deunydd yw ein rhoi ni mewn *gallu* a pharodrwydd
 " i ateb *Dibenion* yr unrhyw, y rhai, yw buchedd dda
 " a phob daioni gweithredol : Felly oni bydd i'th ymarfer
 " o *foddion Gras* dy wneud yn fwyfwy ffrwythlon
 " mewn cymmwynasgarwch goftyngeiddrwedd a chariad
 " a phob rhinwedd dda, y rhai yw *ffrwyth* yr Yspryd,
 " Gal. 5. 22. Ephes. 5. 9.—nid wyt fyth amgen na'r
 " gwas anfuddiol, Matt. 25. 30. a rhagrithiwr anf-
 " frwythlon annedwyddd, Hebr. 6. 7, 8. 2 Tim. 2.
 " 14. Col. 1. 10. Yn unig er mwyn *dibennion Cre-*
 " *fydd* yr ordeiniwyd y *Moddion Gras* ; Felly ni thal ag
 " ni thyccia y *naill* unrhyw ddim heb y llall : Matt. 23.
 " 23, rhan olaf. Jago 1. 22. Joan. 13. 17. Matt.
 " 5. 20.)

" Addoli a molianu Duw yn ddyfal-barhâus (ag annog
 " pawb eraill i wneud felly hefyd, yn enwedig ein teil-
 " ueedd ein hunain) cystal yn y dirgel ag ar gyhoedd, ar
 " lêd a chartref ; a pharchu pob peth a gyflegrwyd iw
 " anrheddedd a'i addoliant ef, sef ei *ddydd*, Exod. 20. 8.
 " —ei *Air*, Psal. 138. 2. a Psal. 119. 72,— ei *Deml*,
 " *Levit.* 19. 30,— ei *Weinidogion*, i *Theff.* 5. 12, 13,
 " — ei

" — ei *Sacramentau* ai ordinhadau oll, 1 Petr, 3. 15.
 " Pennod 4. 11. a sancteiddio ei sabbath ef o ben bwy-
 " gilydd trwy bob gweithredoedd da, gan dreulio cyfran
 " helaeth o hono hwyr a boreu yn yr *Eglwys* gida'r
 " gynnulleidfa Cristianogol, Hebr. 10. 25. Deutor.
 " 12. 5, 7, 8. Pennod 31. 11, 12, 13. Nehem. 13.
 " 11. Matt. 18. 20,

" Ag ynghyflawniad hyn oll hyd eithaf ein gallu trwy
 " gynnorthwy y nefol ras, rhoi ein hyder ar drugaredd
 " Dduw trwy Crist am bob rhad a bendith ag am fad-
 " deuant o'n pechoda'u ar ammodau'r *Efyngyl*, y rhai
 " yw gwir *Fydd*, *Edifeirwch calon*, a *Newydddeb*
 " *buchedd*; gan fyw a marw mewn crediniaeth a gobaith
 • " da o gymmod a thrugaredd,— o adgyfodiad llawen a
 " thragwyddol iechydwriaeth, *nid* o ran dim teilynged
 " o'r eiddom ein *hunain* Luc. 17. 10. ond yn unig trwy
 " fod o honom ynaelodau bywiol cyfammodawl o
 " Gorph Eglwys Crist. 1 Cor. 12. 27. Gal. 2. 20,
 " Ephes. 5. 30. Col. 2. 19. sef. trwy, ag er mwyn
 " anraethol haeddiant ag effeithiol gyfryngiad y *Mab*
 " *rhâd*, ein hunig Brynnwr a'n Dadleuwr bendigedig
 " Jesu Crist, 1 Petr, 1. 19. 1 Tim. 2. 5. Actau.
 " 4. 12.

Pwy bynnag a wy'r ag a grêd gymaint a *hyn*, *nid* hawdd iddo fod yn ddiwybod mewn dim gwirionedd sylfaenol ar sydd yn perthyn i iechydwriaeth dyn: *Ychydig wybodaeth iachusol* a â ymhell gida chalon oneft fyfyriol ostyngédig trwy rad Duw ar hynny,— a thrwy na bo modd ir dyn gael yn rhagor heb y *pechod* dirfawr o droi yn *Schismatic*, ag y bo iddo wneud cydwybod o *gyflawni* yr hyn oll a w'yr eusus,— a wesnith trwy drugaredd Dduw yn Grhist i gadw ei enaid a'i ddwyn i iechydwriaeth, 1 Cor. 8, 1, 11. 1 Cor. 2. 2.

Siccer yw mai *burriad* Duw (yr hwn y mai ei ddoethinéb ai ddaioni yn anfeidrol) yn trefnu ini ddedwyddol feddiant oi Sanctaidd *Air*, yw,— *nid* ein dyrys a'n dottio,— *nid* magu cwestiwnau dyfniion diles a dadleuaeth gonsetus anniben ag amheuon dyrys anghyffurol ag anghariad ymrafaelgar,— *ond* yn y gwrthwyneb, in llenwi a goftyngeiddrwydd a chariad brawdol ag undeb ysprydol a phob

phob rhinwedd dda,— ag fel y byddei ini (trwy ddal ar y pethau *egluraf* a *rheitiaf* yn y Bibl, Deutor. 29. 29, yn ostyngedig ag yn ddi-ragfarn) gael ein goleuo a'n diddanu a'n hyfforddio ynghyflawniad ein dyledswydd, a chyfeirio ein traed i ffordd tangneddef, I Tim. 1, 4; 5. 2 Tim. 2. 14, 22, 23. Pennod 3. 16. Titus 3. 9.

A phwy, gan roi ei law ar ei gallon, a feiddia wadu nas *dichon* pob dyn bedyddiol (*os myn*) gwbl-atteb dibennion Crefydd Crist, a *gwybod* a *thyflawni* yr hyn oll a grybwyllywd uchod, er iechyd iw enaid (beth bynag a wnelo eraill) ynghymmundebs *Eglwys Loegr*; yr hon yw gogonian y Gwledydd *Protestanaidd* trwy Gred i gyd, ag nid oes ei phurach y dydd heddyw ar y ddaear,— yr hon sydd wedi ei sylfaenu a'i hadeiladu yn *gwbl* ar yr Yscrythyr lân,—ag nid yw yn gofyn gan neb oi haeldau *ddim* megis ammod o *gymmundeb* ag iechydwriaeth, ond yn *unig* bod iddynt gredu a gwneud yn ol *gair Duw*; ag a sydd yn hynny cystadl ai disgyblaeth a chyfansoddiad y *Lyfr Gwreddi gyffredin* a'r 39 erthyglau Crefydd, yn cwbl-atteb i batrwm y *priif Eglwys Christianogol*.

Pa mor anescusadol gan hynny ydyw ei Gelynion hi gan y *Schismaticiaid*, (wrth ba enw bynnag y galwant eu hunain,) y rhai sydd nid yn unig wedi neidio yn ôl oddiwrthi eu *bunain* fel bwa twyllodrus eithr hefyd yn ynfedu cymhelled a ffansio a thaeru mai *da y gwnant* wrth fod mor dra phryssur ar waith yn ei gwanhâu ai difenwi ai difrodi ar hyd y wlad, gan ein cyfrif *ni oll* sydd *oi chymmundeb* hi yn llywr-anghymmwys gymmaint ag i dd'weud ein *Pader*, ie ddim amgen na deillion a cholledig : Nawdd Duw rhag eu digywilyddra aù rhyfyg echryslon aù gwall cariad Christianogol : Dyna'r bobl *y syddd tan ritb duwioldeb a zêl* (ond nid yn ol *gwybodaeth*) a thrwy eiriau chwyddedig, a chroes-ymgroes resymmiadau, a gwag ymfrost Pharisæaidd ou' doniau aù pregethiad aù goleuni aù sancteiddrwydd eu *bunain*, a thrwm-farnu a diystyru pawb arall, a thrwy *gam-esponiad* o ddyfnadroedd yr Yscrythyr lan, a thrwy aneirif esfusion gorwag a dichellion ystrywddrwg a chelwyddau noethion dig'wilydd,—yn afonyddu a dyrys meddyliau pobl oneft yn erchyll iawn,—gan wneud eu heithaf (fel

y rheini yn Matt. 23. 15,) i wyrdroi pob dyn llyg anwadal a gwrageddos diwybod oddiwrth gymmundeb yr Eglwys uniawn-gred, er cryfhau eu plaid eu hunain,— ag yn llenwi'r cwrr yma o Grêd a throfeudd ag anffyddlondeb cywilyddus, a chyfarfodydd anghyfreithlon nos a dydd (a elwir *Conventicles* gan' y Gyfraith), a chonseit a balchder ysprydol ag anfoesgarwch ag ymrafaelion dadleugar anghariadus a chani-hyder rhyfygus, ag anghydfod ag anufuddod, ir llywodraeth ddinasaidd ag Eglwyfig, ag afreolaeth ag anrhefn hyll ddi-escus,— ag ar air, a'r pechod tramawr o *Schism* noeth, sef yw hynny *ymrwygiad* o *undeb* Corph Eglwys Crist ag ymddattodiad o'r cwlwm *tangneddef* a'r *Cariad* perffaith, sydd i uno holl Grifftianogion y byd, Joan 17. 11, 21, 22, 23. E. phef. 4. 2—7. Rhuf. 12. 4, 5. 1 Petr. 3. 8. ag yn enwedig. 1 Cor. 12. 25. A chwedi'r cwbl, yr holl ddiolch a gâ yr Penswyddogion ag amryw Eglwyfwyr ganddynt am eu cymmeryd trwy dêg, a pheidio au cospi yn ol y Gyfraith, yw taeru arnynt ar gelwydd eu bod nhwythau yn tueddu at yr un blaidd wyrrog a throfaus,—pan nad y'nt ond canlyn cyngor yr Apostol, 2 Tim 2. 25, 26. Ai nid da y geill ein Mam ysprydol gan Eglwys Loegr achwyn yn doft ar, y Methodistiaid ? gan ddywedyd, “ Megais a meithrinias feibion, a gwrthryfelasant i'm herbyn, Esay 1. 2 ; Ond er amled a blined y cadd hi ei bradychu ai chyfustudio erioed rhwng Schismaticiaid a Phapistiaid, y mae yn sefyll fyth er gwaetha'r ddwy-blaid, a thrwy Dduw nis gorchfygir moni byth Matt. 16. 18, ag 28. 20.

Fe gâdd gwrthddadleûon ag escusion gorwag y *Seet ne-wydd* ymma eu hatteb yn ddifai-ddigon drachefn a thra-chefn, pe byddid nes ag y tycciei ymrefymmu a phobl benffol confetus o'u bâth : Ond nid oes dim diben ar ddadleu ag ymdaeru, 'lle byddo dynion cyndyn gwyneb-galed yn rhoi eu bryd au bwriad ar hynny, gan *ymroi* beio a gwrthddywedyd a *mynnu* eu ffordd eu hunain er gwaetha' neb, a *Dewis* grwando ar bobl *werin ddi-ddyf ddi-awdurdod* (sydd yn tywallt Frydiau o Siarad chwithig anghyffson rhyfygus tan *ddynwared* Pregethu) o flaen y Gweinidogion *cyfreithlon* a osododd deddfau Duw a Dyn yn Fugeiliaid ag yn olygwyr arnynt,—y rhai a ddyg-pwyd i fynu (mewn dysc a dawn, drwy y mawr gof a thrafferth)

thrifferth) où mebyd ir *Offeiriadaeth*, ag a *urddwyd i'r swydd gyslegredig gan Escobion yr Eglwys*, a sy'n ca-dw lle yr Apostolion yn ol ynol ymhob oes hyd gorff y dydd hwn: Trwy weinidogaeth pa rai gan hynny y mae enwedigol râd a bendith iw disgwyl, Matt. 28. 20. 2 Cor. 5. 19, 20. Joan 10. 1—6. Luc 10. 16. 1 Cor. 4. 1. — Ephes. 4. 11, 12. ag am hynny ydynt i gael parch a chynhaliaeth wrth eu gwaith, 1 Thesal. 5. 12, 13. Rhuf. 15. 27. 1 Cor. 9. 13; — ag y mae'r gwaith où dirmygù (pa faint mwy eu difenwi, au cashâu au melldithio) yn ddirmyg ag yn amharch i Duw a Christ, Luc 10. 16. Gwêl hanes dy ddyled tuag at dy Fugeiliaid Yysprydol gweinidogion yr Eglwys, yn y llyfr rhagorol a el-wir *Holl ddyledswydd dyn o gyfeithiad Mr. Samuel*, tu dalen 271—275, 'lle y cei hefyd rybuddion da rhag Schismaticaid: A Duw a wnel Ffynnu gennit roi hyn oll yn ddwys at dy galon, fel ith ddychweler ir ffôrdd *wir*, cyn dy wirioni a' th g'ledu gan dwyll Pechod a *Schism*.

Ag am yr anhuedd a'r casineb sydd gan y Methodistiaid tuag at y *Lyfr Gwreddi Gyffredin*, mor ddireswm a di-escus ydynt! canys y mae'r naill *banner o hono wedi ei gymmeryd air yn air allan o'r Yscrythyr lân*, ag nid oes ynddo gymmaint ag un gair trwyddo yn anghyttnol a'r unrhyw: Ag am y *Gweddiau* oll sydd ynddo, ni cheisiaf ond barn Ungwr di-bartiaeth, onid ydynt yn llawer amgenach a chymhwysach i *Gynulleidfa Cristianogol* nag a geir gan undyn trwy'r byd i gyd ar ei *dafad-leferydd*: Ag y ma'er llyfr godidog hwnnw yn haeddu ein parch a'n cariad ni oll, nid yn unig o herwydd ei *burdeb a'r Awdurdod* gyfreithlon trwy ba un y gor-chymwynwyd ef ini,—ond hefyd o ran y cyfansoddwyd ef gan y *Gwyr* enwogcaf yn eu hamser am ddyfis a dawn, y rhai ai feliasant ef a'u *gwaed* drwy erlidigaeth y Frenhines *Mary*: Gwêl y llyfr cymraeg a elwir *Pryderiwrwch Sancteiddrwydd*.

Pwy bynnag o'r Sect newydd yma sydd ganddynt feddwl goneft di-ragfarn a bwriad da a natur rywiogaidd, ag heb eu dallu gan gonseit neu Opiniwn a rhyfyg, na'u gwreiddio mewn Schism, (a gobeithio fod ll-

weroedd o'r fath, sydd yn eu *giwiriondeb* fel Paul cyn ei droedigaeth, yn drygu Eglwys Crist, i Tim. 1. 13,—ag fel rhai o'r fawl a groeshoeliasant ei *Gorff* ef gynt, heb wybod *beth* y maent yn ei wneuthur Luc 23. 34, na pha mor erchyll yw eu rhwyfau hynfydrwydd,) gofynnaf iddynt y cwestiwnau canlynol : Ag os rhôn' attebion ystyriol yn eu cylch iw *cydwybodaau* eu hunain, nid wyf yn ammeu nas gwna hynny trwy ras Duw derfynu'r ymrafael, a'u dattroi at eu *cariad cyntaf* (Datcudd. 2. 4.) sef Eglwys *Loegr*, y bedyddiwyd hwynt yn aelodau o honi.

1. A fedrwch chwi brofi fod *bai* yn y byd ar *Athrawiaeth* yr Eglwys sefydledig ?

2. A ceddych chwi, *cyn* neillduo ag ymwahanu od-iwrthi, yn gwneud y *deunydd* goreu o'r goleuni a'r adeladaeth a oedd iw cael yn ei chymmundeby hi, ag yn *cyflawni* 'r hvn a *wyddech* o'ch dylêd tuag at Dduw a dyn, er *lleied* yscatfydd oedd hynny ? neu ar air, a oeddych chwi yn gwneud y goreu o'r *hen* ffordd union, cyn troi at groes-ffyrrd ag anwadalu ag ymorawlam lwybr newydd ir *nef* ?

3. A fedrwch chwi wadu nas *dichon* dyn fod yn-wir-dduwiol a da (ie cyn ddâed a duvioled ag y bo boffabl i neb ar y ddaear fod, a hynny heb na chyngor na chwmni Pen-grwn, (ag felly yn *gadwedig* yn ei chymmundeby hi, os myn, beth bynnag a wnelo eraill ?

4. Ai nis gall yr athrawon crwydraidd dichellgar sydd gennych yr awron, *Ynghyscod* dwfing neu ddau o gynghorion *cywir a da*, wthio ymbell un *drwg* yn lledraidaidd,—a gwneud mwy o niwed i'ch eneidau a'r *u* hwnnw nag o les a'r lleill i gyd ?

5. A ydych chwi yn *Siwr* (ag a fedrwch chwi brofi hynny) nod yw eich Athrawon newydd yn siarad yn aml ar *amcan*,—sef yn *cam-ddeall*, yn *traws-wyro* ag yn *cam-gyfaddasu* pob llyfr da a d'rawont wrtho ag yn enwedig yr Yscrythyr Lân mewn llawer peth (o *eisieu* dyf a gwybodaeth o natur *dull-ymadroddion* ag

o amrafael arwyddocaaad yr un geiriau ag o iaith *ddech-reuol* y Testament newydd sef yr iaith *Roeg*, neu o eisieu ystyried ol a blaen ag *ergyd* y Bennod, a chyfladlu'r naill fan a'r llall i Cor. 2. 13, a deall cyflondeb y ffydd,) ag wrth hynny yn gwneud anferthol *gam goleu* a gair Duw ag a'ch eneidiau chwi oll, sydd mor ffôl a rhoi clust a chrêd iŵ hathrawiaeth ?

6. Ai nid oes achos da i chwi *ammeu* ag *ofni* hynny, pan wyddoch (ag y gwyr y byd hefyd) mai'r pethau *dyfnaf* ag anhawsaf iŵ deall sydd hoffa' ganddynt eu trin a chymmeryd *arnynt* eu hagoryd, gan *ruthro* i'r pethau nis gwyddant.—ag yn enwedig os dwys-ystyriwch y geiriau eglur ymima 2 Petr 3. 16, 17. (a gwae chwi onid ystyriwch hwyt, er rhybudd i'ch eneidiau) “*Yn y rhai* (sef Epistolau St. Paul) *y mae rhyw bethau ANNAWDD eu deall, y rhai y mae'r ANNYSCEDIG a'r ANWASTAD yn eu GYWYRDRROI mcgis y Serythyrau ERAILL iŵ DINISTR eubunain: Chwychwi gan hymny anwylyd, gan wybod y pethau byn o'r blaen, ymgedwch rhag eich arwain ymmaith trwy amryfusedd yr annuviol, a chwympo o honoch oddiwrth eich siccerwydd eich hunain?*

7. A ddarfu i chwi erioed na holi nag ystyried pa mor hyll ag echryflon o bechod yw *Schism*, — ei fod yn llwyr-wrthwynebu 'r ddau bwnge yma o *Gredo* 'r Apostolion, sef *Yr Eglwys lan Catholic, Cymmun y Sainet*, — a bod e^l *ffrwythau* ef gan *ymrysonau* ag *ymbleidio* cyn benned pechoda u a godineb meddwdod a llofruddi-aeth,— a bod y neb a fôn euog o'r naill mor *gnawdol* a chyn belled oddiwrth yspryd *Crist* (er amheued gennych hynny) a'r fawl a weithredo'r lleill, Gal. 5. 19, 20, 21. i Cor. 3. 3, 4. Judas 19. --- Ag er y byddech yn feddiannol o'r holl oleuni a'r sancteiddrwydd a'r Ysprydoliaeth yr *ymhorrwch* eu bod gennych, etto gwnae *un* pechod gwirfodd rhyfygus (megis Schism, gwall gofngyeiddrwydd neu farn *anghariadus* a'r cyffelyb) ddiwy-no a diddymmu eich daioni a'ch rhinweddau i gyd, a dirfawr-beryglu eich eneidiau, Jago 2. 10. i Cor. 13. 1, 2, 3. Pennod 5, 6. i Petr. 5. 5?

8. Ai nid yw synn edrychiad gwynebdrift y Methodiaid a'u (hocheneidiau gwaftadol a'u cri a'u hoernad ar *GYHOEDD*, yn enwedig wrth weddio a phregethu, (heblaw eu gwneud nhw eu hunain yn anghynnes iawn, a dwyn *anair* ar y newydd *da o lawenydd* mawr a ddygodd Crist gidag ef ir byd Luc 2. 10.) yn sawrio yn gryf o'r hên Surdoes gan *RAGRITH* wag-ogoneddgar, ag yn bethau gwaharddedig wrth air Duw, Matt. 6. 1---9, 16, 17, 18. Luc 12. 1?

9. Ai nid yw eich athrawon chwi yn euog o ryw beth pur-debyg i bechyd Corah Dathan ag Abiram, wrth ruthro i'r Offeiriadaeth a threisio swydd yr Eglwyswyr, *beb* na'u gwahodd na'u hanfon na'u hurddo gan neb rhyw *Awdurdod Gyfreithlon*: Canys er mai dyled Pawb yw eu cyngori a'u ceryddu a'u hadeiladu eu gilydd mewn modd weddus oftyngedig, etto siccr yw nad rhydd i neb bregethu nag administrio'r Sacramentau na gweini mewn modd awdurdodol yn y *Gynnulleidfa*, ond yn unig y Gweinidigion Cyfreithlon *Urddedig*, ---braint pa rai yw cynnyg gollyngod a chymmod i bechaduriaid edifeiriol yn enw Duw a Christ, 2 Cor. 5. 20. Pa fodd gan hynny y meiddiwch ddirmyg y Gennad *lesgaf* o'r fath *yma*, a pha beth a dál Gweinidogaeth neb arall? "Nid yw neb " yn cymmeryd yr anrhydedd *bwn iddo ei bun*, ond yr " *bwn a alwyd gan Duw*, megis Aaron, Hebr. 5. 4. (â " gwêl Deutor. 10. 8, Numeri 16. 40. --- Eclus 7. 29. " Actâu; ag yn enwedig 1 Cor. 4. 1. Pa fodd y pregeant, onis danfonir *hwynt*, Rhuf. 10. 15. " Gwefusau'r *OFFEIRIAD* a gadwant *wybodaeth*, a'r gyfraith a geisiant oi enau ef, o herwydd *CENNAD ARGLWYDD* y lluoedd yw *EEF*, Malachi 2. 7, *Ai Athrawon pawb*, 1 Cor. 12. 29.

10. Pa well enw na *gau Brophwydi* a haedda eich Athrawon chwi, nid yn unig am eu gwaith yn bod mor *ddrwg dybus* a rhodrefgar, --- yn ymlusco i deiau ag yn eu didoli eu hunain, 2 Theffl. 3. 11. 2 Tim. 3. 6. Judas 19. --- yn gwahardd i bobl arferu enw y Duw bendigedig wrth fendithio eu Plant neu alw am *Rad* ar dda neu waith eu Cym'dogion, ---yn cafhâu a difenwi'r Eglwys, --- yn

yn llithio' rbobl i Schism noeth, ag er hynny yn eu gwrantu nhw yn dda a chadwedig,— yn eu mawrhau eu hunain (2 Cor. 10. 12.) ag yn trwm-farnu eraill,— a'r cyfryw arwyddion drwg,— ond hefyd am daeru fod yr Yspryd yn *barodol* ganddynt ar bob achos, sef eu bôd nhw yn cael eu hysprydoli megis yn yr un modd rhyfedd enwedigol a'r Apostolion gynt gan yr Yspryd Glan,— ag (o'ch or gabledd !) mai *efe* yw awdwr eu meddyliau pendronus au geiriau gwyr gam hwynt oll,— ag am hynny nad rhaid iddynt hwy wrth *ddynol* 'scholheigctod :— Ond gan nad oes ganddynt ddim iw *ddangos* am wironedd y peth ond eu gair eu *hunain*, ag nas medrant ei *brofi* drwy *wrthiau* a rhyfeddodau gweledig fel y *gwir* Brophwydi oll a'r Apostolion gynt,— nid oes modd yn y byd iw cyfrif amgen na *gau Brophwydi celwyddog* : Dyna farn Cristianogion ymhob oes yngylch y cyfryw a'r enw a roir iddynt yw *Enthusiasts*? Gwêl 2 Theff. 2. 11. Ezec. 13. 3—10 : 2 Tim. 3. 13. A chan y tybir mai *conseit* neu Opiniwn yw'r hyn sy'n eich dallu ac'h chwyddo fwyaf, deliwch fulw yn rhôdd ar Diar. 26. 12. Rhuf. 11. 25. Pennod 12. 16. Esay 5. 20, 21 ; ag 65. 5. Rhuf. 1. 22. 2 Tim. 3. 7.

11. Ai nid yw y fawl oll sydd yn dilyn ag yn diarhebu y *gau* Athrawon hyn, yn eu cefnogi yn eu gwaith, (canys pe baent oll yn eu *gadael*, darfyddei am y Schism ar unwaith,) ag wrth hynny yn eu gwneud eu hunain yn gyfrannogion o'u holl Bechod hwynt,— yn eu rhedeg eu hunain i brofedigaeth a magl, ag felly yn temptio Duw,— “ *yn pentyraru iddynt athrawon yn ol eu chwantau eu hunain, gan fod eu clustiau yn merwino*, 2 Tim. 4. 3,— yn euog o bechod *feroboam* yn gwneud gwehillion y bobl yn *Offeiriad*,— ag yn eu dangos eu hunain yn ddi-ffydd ag yn anwadal erchyll, gan y medrodd cyn waeled Twyllwyr (y rhai nis ymddiredai neb pwyllog iw bath am ei dda byd, chwaethach am ei grefydd ai enaid) eu ffoli a'u gwyrdroi oddiwrth yr Eglwys iawn-gred? Deliwch ddyfal fulw ar 2 Tim. 3. 6, 7, 8, 9. Judas 18—21. Ephes. 4. 14. Rhuf. 16. 18.

12. Ai nid digywilyddra noeth, [a'r hyn sydd yn arwain pobl yn ddiball i un or ddau eithaf dinistriol yma, sef

Parishioner Book 1747

sef naill ai i *ANOBITH* neu i *GAM-HYDER* ddifraw ryfygus,) yw ir Schismaticiaid yma daeru fod y neb sydd *bod* fod ganddo yr awron ymlaen llaw lawn *Siccrwydd* diamheus diball oi adgenhedliad ai iechydwriaeth ei hun, mewn cyflwr *colledig*,— a *bod* ganddynt *bwy* y cyfryw *Siccrwydd*,— pan na offiodd St. *Paul* ddweud dim or fath beth am dano ei hun, fel y gwelwch wrth Phil. 3. 12, 13, 14, (o leiaf hyd onid oedd ar gael ei ferthyru) ag ni roes na chennad nag escus i neb arall ryfygu d'weud y fath beth,— gan erchi ini oll “*weithio allan ein hiechydwriaeth trwy ofn a dychryn* Phil. 2, 12 : Heblaw hynny y mae'r cyfryw *Siccrwydd* yn llwyr-anghytunol a natur *ffydd a gobaith a gwiliadwri a gweddi* Grifftianogol (Hebr. 11. 1. Rhuf. 8. 24 ; ag 11. 20. Marc 13. 37 : 1 Cor. 10. 12. Rhuf. 10. 1,) ag a stat a *Brawf* neu dreial, sef a'n cyflwr *milwrus* yma ar y ddaear ?

13. A oes pennach pechod nag i ddyn ei gyfrif ei hun yn gwbl-berffaith eufus ag yn llwyr ddi-bechod, Diar. 20: 9 : 1 Joan 1. 8, 10 ? ag oni ddengus Datc. 3. 17. a dammeg y Pharisee a'r Publican yn y Deml (Luc 18) fod hunan-gyflawnhaad a balchder ysprydol, ag i bobl gleimio'r holl oleuni a'r Sancteiddrwydd iw plaid eu *bunain*, a barnu a diyfryu eraill er mor bechadurus a diwybod y bônt,— yn bechodau atcas dinistriol i enaid dyn, ag yn union wrthwyneb ir ddwy brif rinwedd Grifftianogol, sef *Gostyngieddrwydd a Chariad* perffaith ? Rhuf. 10. 2, 3 ; ag hefyd Pennod 12. 10. Phil. 2. 3 ; 1 Cor. 13. 4. Matt. 5. 20.

14. Beth sy'n darfod i chwi a'r *Adeiladau Eglwysawl* ag yn eich gwneud mor ddrwg eich mœs a'ch arraith tuag attynt ? ai nid oes parch yn ddyledus iddynt er mwyn yr Arglwydd Dduw a'i piau, ag sy'n cael ei foli a'i addoli ar gyhoedd ynddynt, Levit. 19. 30 ? ag onid y'nt o leiaf yn llawer- *addasach* lleoedd i Grifftianogion gyd-ymgynnnull ynddynt er dibennion Crefydd, na'ch *teiau* chwi neu 'scubor neu fol clawdd : Dymma fel y gofyn St. *Paul* 1 Cor. 11. 22, “*Ai dirmygu yr ydych chwi EGLWYS Dduw ?* A siccr yw y deellir wrth y gair *Eglwys* yn y Testament newydd nid yn unig y *Gynulleidfa* Grifftianogol, eithr hefyd yr *adeiladau cyffredig* i'r cyfryw ym-gynnnull

gynnull ynddynt ar achosion crefyddol, fel yr eglur-welir wrth 1 Cor. 14. 33, 34. Pennod 11. 18, 22.— Yn awr ystyriwch Ps. 26. 8. Ps. 84. 1, 10. Ps. 122. 1; a chywilyddiwrh wrth ganfod mor erchyll y dirywiafioch oddiwrth batrwm y Gwr yn ol calon Duw.

15. Pa beth yw dy dyb di o Grefydd a chyflwr dy Rieni a'th *Henafiaid* Protestanaidd gynt? A feiddi ddywedyd mai *deillion* a *cholledig* oeddynt oll, ag nas medrei *neb* iawn-agoryd y Gair, na deall yr yscrythyr lân, na dyfod o hyd ir *wir* Grefydd er iechyd i'r enaid, tan y dydd arall pan dorrodd y sect *newydd* yma allan, ag y daeth Athrawon dieithrol crwydraidd di-ddyfsc i'n plith,—y rhai (er *maint* eu brol ffyl a'u dadwrdd ryfygus) nis datcuddiasant ddim *newydd* ini, ond yn unig mai nhw eu hunain yw'r bobl fwya' eu conseit a'u rhyfyg ar a welsom erioed? Duwa a warchâo dy enaid rhag y fath dyb anghariadus a barn ehud ryfygus.

16. Dyro dy law ar dy galon a gofyn iddi, ai nid rhyw ysfa ddrwg neu ferw ffyl a manyldra gwaharddedig a chwant blyfig i glywed newydd-beth neu ddifyg ffydd, a gwall-ymgroes, neu *opiniwn* coegfalch consetus, neu chwant clod neu fanteision bydol, neu gwmniaeth a *thaerni* dichellwyr hudol-aidd, neu feddwl anwadal dau-ddyblyg, neu ryw ymrafael a'r Gweinidog Plwyfol, neu achos a bwriad gw'yrgam or *fath*, a'th hudodd di i droi ar y cyn-taf oddiwrth yr Eglwys, yn fwya' na dim arall? Ag ai nid cyndyrrwydd escymmun ag ofn edliwiaeth ag anaïr dynol yw'r peth mwya' sy'n dy rwyistro rhag troi yn dy ôl,—er y gwelaist, ag y clywaist ondodid ganwaith er pan ddechreuaist ymgyfeillachu a'r *Pennau Crynnion*, ddigon i beri iti flino a diflasu arnynt?

17. Ai nid Ffalsdra brwnt cywilyddus yw i ddyn fod yn *ddau-wynebog*, gan gloffi rhwng dau feddwl sef rhwng yr Eglwys a'r Schismaticiaid, ai rannu ei hun rhynghdynt a chyrchu attynt megis bob yn ail? Canys nis dichon y cyfryw un fod yn *gywir* ir un or ddwy-blaid mwy na gwâs i ddau feistr neu wraig a fae ganddi ddau o wy'r ar unwaith? Matt. 6. 24. Jago 1. 8: 1 Brenh. 18. 21: Ai nid yw y cyfryw *Frodyr gau* yn llawer enbydtach na *Gelyuion*

Gelynion noeth, Ps. 55. 12, 13, 14? — Ai nid yw dyn dau-ddyblyb ei feddwl yn debyg i'r gwr llygadtr'ws, sy'n edrych un fforddd ag yn canfod ffordd arall? — Ag onid oes achos da i feddwl fod *rhai o'r cyfryw wrth hir-ymladd a dau feddwl*, wedi dottio o'r diwedd a *rhuysfrt*, fel nas gwyddant o *ba Broffes y maent*, na pha *beth i feddwl o honynt eu hunain*; yr hyn sydd debygol iw llenwi yn y man a meddyliau duon dyrys gwan-obeithiwl?

18. Ai nid yw dy waith yn dy wneud dy hun yn euog o'r pechod dirfawr o schism tan *escus* myned yn well dyn, yn debyg i *ynfydrwydd y rhai a ddywedant*, “*Gwnawn ddrwg fel y delo daioni, y rhai y mae eu damnedigaeth yn gyfawn*”, Rhuf. 3. 8; Matt. 23. 24.

19. Ai nid rhyw gymmysc anrhefnus o gyfeiliornad y Crynwyr neu Gwaceraid a Phresbyteriaid ag Antinomians ag amryw hén Schismatciaid o'u bathau, yw'r seft newydd yma?

20. Ai nid yw geiriau ein Jechawdwr yn galw *Ty Dduw* yn *Dy Gweddi* Matt. 21. 13, yn ein dyscu'n ddigonol, nad yw *pregethu* (er dâed a rheited y bo) o *debyg* cymaint pwys a *duwioldeb* Eglwysig? — Ag heblaw hynny, oni ddengus aml brawf erioed (ag yn enwedig helyntion y Deyrnas yma o gylch can mlynedd ir awron, pan oedd hi yn berwi o Schismau a phleidiau a neirif) mai trwy *Bregethau gau* dichellgar yr ydis yn gwyrdroi'r byd, ag yn gwneud mwya' o ddrwg? a chofia ymhellach mai *cymwynasgarwch a gwneud elusen a daioni i bawb*, yw'r dyledswyddau rheitiaf yn y byd; gan mai wrthynt *hwy* in bernir yn y dydd ofnadwy Matt. 25. 31—46. Gal. 6. 9. Heb. 13. 16. Jo. 4. 34: Y *nbw a wna ini debygu fwya' i Dduw a Christ*, Matt. 5.

44, 45. Joan 13. 34. Luc. 10. 37; — Ag hebddynt nis gwna *darllen a gweddio* ag ymwrthod a'r drwg (er dâed yw hynny) monom byth yn gadwedig yn ol ammadau'r Efengyl, Matt. 7. 21, 22. Jago 1. 22. Joan 13. 17.— Eit'r pwys a glywodd fôn fod y *Pengrynniaid* (gida'u holl rith duwioldeb) yn rhagori ar bobl eraill

mewn

mewn cymmwynasgarwch, elusen i cyffredinol a daioni gweithredol ? Matt. 23. 23, rhan olaf.

21. Yn ddiwedda, ai nid oes gormod achos i feddwl fod y *Methodistiaid* o nifer y *Gau Brophwydi* a'r Twyll-wyr a'r Bleiddiaid yngwiscoed Defaid, y rhai y mae *Crist* ai Apostolion yn ein rhybuddio cyn amled (ag yn ein rhoi tan ein Siars) iw *gochel*, a gwiliad rhag eu hudoliaeth a'u dichellion a'u hanwadalwch ? Dal ddyfal fulw ar Matt. 7. 15. Judas 18. 19. 20, 21, ag hefyd 8, 9, 10. 1 Tim. 4. 1, 2 : 2 Tim. 3. 1, 5, 6, 7. Titus 1. 10, 11 : 2 Petr 3. 3, 17. Coloss. 2. 18. Ephes. 4. 14, &c.

Ni soniais am gant o bethau gwrnadwyddus a dd'wedir arnoch, gan obeithio nad gwir monynt ; ond dywedais a phrofais ddigon allan o air Duw, i ostegu a pheri cywilydd duwiol i bob dyn *yfyrion* yn eich plith,— ag a allaf bellach gymhwysol geiriau Crist attoch chwi y Schismatciaid, Joan 5. 39, 45, “ *Chwiliwch y Scrythyrau, canys ynnydant hwy yr ydych chwi yn MEDDWL cael bywyd* ” “ *tragwyddol*,— ag wele eu bod hwynt yn eich cyhuddo ag yn tyftiolaethu i'ch erbyn.

Ag er *dæd* tyb a fo gan *rai* ondodid o'r fford *newydd* yma wedi'r cwbl, etto cofiant yr hyn a ddywed Solomon ddoeth, Diar. 14. 12, “ *Y mae fford sydd uniawn yn golwg dyn, ond ei diwedd hi yw ffyrdd Angeu : Yfyrion* (attolwg i chwi) *hawsed* yw eich twyllo trwy aneirif ddichellion dyn a diafol, ag mai *gau Brophwydi* 'frywddrwg yw'r mwya' hynod o bawb erioed am y gweidiau hwyaf Marc 12. 40. Matt. 6. 7, a'r ymddangosiad duwiolaf oddiallan a'r geiriau tegcaf gwaftadtaf a'r pregethiad chwyddedigcaf, (oni bae hynny o *Abwyd i guddio'r bach*, ni byddei bossibl iddynt ddal cynnifer ag èf;) ond er tebygced y byddei eu hedrychiad i Angelion y Goleuni, etto er hyn i gyd, nid ydynt hwy ddim amgen na Thwylwyr drwg,— fel y gwelwch wrth 2 Cor. 11. 13, 14, 15, “ *Y cyfryw gau Brophwydi sydd weithwyr twyll-odrus, wedi ymrithio yn Apostolion i Crist* ; ag nid rhyfedd, canys y mae Satan yntef yn ymrithio yn Angel y Goleuni; Gan hynny nid mawr yw er ymrithio ei weini-digion ef fel Gweinidogion cyflawnder, y rhai y bydd eu diwedd yn ol eu gweithredoedd,— Matt. 23. 25, 26, 27, 28.

Nid wyf mewn gwirionedd yn chwennych i'r Schismaticiaid na cham nag amharch na niwed yn y byd, ond y lles a'r daioni bwygilydd; am hynny na farnant monwyf am eu galw yn *Fethodistiaid* ag yn *Bennau Crys-nion*; canys yn wir nis gwn i ddim enw arall yr *Adwaenir* hwynt wrtho: ag nid o ran dim arall ond y gwir *angenrhaid* ag er cariad ar eu heneidiau cyfeiliornus, yr wyf yn traethu y casfir iachus wrthynt, ag yn eu ceryddu mor llym, yn ol cyngor St. Paul Titus 1. 13. Pennod 2. 15: 2 Cor. 13. 10.

Nis gwiw iddynt edliw i ni fod bucheddau cynnifer o *wyr lly'g a llen* yn ein plith, yn ddifraw ag yn ddrwg; canys er *gwiried* y bo hynny yfywaeth, eto y mae ein *Crefydd* yn *burlan* ddilwgr ag Athrawiaeth ein Heglwys yn gwbl—*iachus* fyth, er iechyd i bob enaid a ymgais o ddifrif ag ammodau iechydwriaeth: A chan mai yn unig trwy air a gras Duw ai effeithiol fendith ar ei ordinphadau ei hun (a arferer drwy *ffydd*) ag ar y weinidogaeth gyfreithlon (sef Gweinidogeth y *Cymmod*, a ymddiriedwyd i'r Eglwyswyr, 2 Cor. 5. 18, 19, 2 Tim. 3. 14.) a thrwy barhau ynglymmundeb yr Eglwys uniawn-gred, y mae ir gwir Gristion ddifgwyl iechydwriaeth a diddanwch er mwyn Crist,— ag nid mewn dim ffordd arall (fel y profais eusus)— nid anhaws i ti brifio yn dda a chadwedig, er cynddrwg y bo eraill.

Mewn perthynas i'th wrthddywediad o achos pechoda'u rhai o'r *Eglwyswyr*, yscatfydd nad gwir a glywaist yn eu cylch (1 Tim. 5. 19.),— eithr os è, gwêl yr hyn a ddywed Crist am gyfreithlon weinidogaeth y dihirwyr gan y Scrifennyddion a'r Pharisæaid, Matt. 23. 2, 3. *Ynghaf-*
dair Moses yr eistedd yr Scrifennyddion a'r Phari-
sæaid: Yr hyn oll gan hynny a ddywedant wrthych am
"eu cadw, cedwch a gnewch; eithr ar ol eu gwei-
"thredoedd na wnewch, canys dywedant ag nis gwnant;
a dal enwedigol fulw ar y geiriau, gan nas gall dim fod
mwy at y pwrrpas presennol: Ag ni ymwhahanodd ein
Jachawdwr na'i Apostolion oddiwrth eu Teml a'u Syna-
gogau i'u Cymmundeb nhw, (er cynddrwg Pobl oedd ynt)
Joan 18. 20. Actau 3. 1. Pennod 18. 4, hyd oni
lwyf-sefydlwyd y Grefydd Gristianogol yn lle Cyfraith
Moses:

Moses : Cofia fod Judas Fradwr yn Bregethwr, Mare 6. 7, 12. Ag yn un o ddeuddeg Apostol Crist : Gwel y 26 o Erthyglau Crefydd ag hefyd i Cor. 3. 5, 7.

Ag am Bechodau neb or *Gynulleidfa*, ein dyled ni oll yn ddiammeu yw gwneud ein heithaf bob fut iw Gwell-hau,—ond (fel y profais eufus) nid yw hynny na rheswm nag escus yn y byd iti ymrafaelio ag ymadael a'r *Eglwys*, a'th escymmuno dy hun, Cymwys i bawb wellhau eu beiau eu *hunain*, cyn barnu ar eraill; ie nid thy'dd ini farnu neb ond nyti ein *hunain* yn unig, gan adael barn pawb *arall* at law Duw, chwiliwr y calonnau, Jago 4. 11, 12 : Y mae Dammeg yr *Efrau* Matt. 13. 24—31. Yn llawn ddigonol i brofi yn ddiwad nad oes dim o'r fath beth a chynnulleidfa gyfa o megis *Seinictiau glan di-lwgr* iw ddifgwyl yn y bywyd *yma*, taered a breuddwy-died y Methodistiaid a fynnon i'r gwrthwyneb : Ag fel hyn y gweli *nas* dichon Pechodau'r *Eglwyswyr* na'r Plwyfolion rwystro gwaith dy iechedwriaeth *di*, ond yn unig trwy dy gennad a'th ddiofalwch drwg a'th wirfodd ddewis dy *hun*,— nag ychwaith escusodi dim ar dy bechod di o Schism yn ymwahanu oddiwrth yr *Eglwys* mwy nag yr escusodid *Bradwriaeth* y Dyn, a fyrtieic allan a'r *Brenin* ag a ymrthodei a'i lywodraeth ef oblegyd bod cynnifer oi *ddeiliaid* a'i *Swyddogion* yn ddrwg.

Ystyr yr hyn a ddarllenwaist a'r un bwriad da a meddwl cariadus difrifol ag y scrifennais ef ar dy fedr : Ag os Schismatic wyt, dychwel yn ebrwyddi fynwes yr *Eglwys* uniawngred, er cariad ar Crist a'th enaid : Ethr o'r tu arall os *diengais* rhag dy wyrdroi a'th dwyllo yn yr amser *enbyd* yma, diolch i Dduw am y cyfryw ffafryspysfol, a dangos o leia' gymaint zel yn *amddiffyn* yr *Eglwys* ag a ddengus ei Gelynnion hi gan y Schismaticiaid yn ei difenwi ai drygu,— a dywed yngieriau'r Letani,
 “ *Oddiwrth bob drwg ag anffawd, oddiwrth ystryw a chyrch y Cythrael, oddiwrth bob ffals ddysgeidiaeth, Opiniwn annuwiol a Schism,—Gwared ni,—Arglwydd daionus.* ”

Felly os Schismaticiaid a'th ddenant, nag ymrando a'u fwynion hudol; gwilia rhag y sawl sydd, “ *trwy ymadrodd*

" ymadroedd tēg a gweniaith yn twyllo calonau y rhai
 diddrwg, Rhuf. 16. 18; ag na ymmyr a'r cyfryw rai
 anwaſtad (Diar. 24. 21.) gw'yrog a throfāus, ag na chy-
 ttuna iw canlyn led-troed er dim, rhag iddynt gael gwall
 arnat a maglu dy enaid: A phan fo'r Temptiwr yn dy
 afonyddu a chwestiwnau dyfnion a gwrthddadlēuon dyrys
 ag amheuon ag ofnad ynighylch *cyflwr dy Enaid a ffordd y Bywyd*, Cymmer gyngor yr Eglwys a dōs yn ebrwydd
 at ryw gyfreithlon, " Weinidog gair Duw, a fyddo pwy-
 " llus a dyscedig, a datcuddia dy ddolur ; er mewn cael
 " trwy sanctaidd weinidogaeth Gair Duw fawr lles Go-
 " llyngdod ('lle bo raid) gida chyngor ag addys Ysprydol,
 " tuag at lonyddu dy Gydwybod a'th rhyddhāu oddiwrth
 " bob amheuaeth a phetrusfer.

Bydded iti fynych-arferu'r Colect am yr ail ful yn
 Adfent ynghyd a'r weddi dws yr Eglwyswyr a'r Bobl tua
 diwedd y Gwasanaeth.

" Arglwydd, cadw dy Deilu yr *Eglwos* lân gatholic,
 " ag yn enwedig y rhan buraf o'r unrhyw a sefydlaist yn
 " y deyrnas hon, mewn undeb diogelwch a duwioldeb
 " gwaſtadol, er gwaetha' pob rhuthr a dichell o waith
 " dy'n a diafol ; fel gan gael ei harwain ai llywio gan dy
 " Yspryd grasusol, y caffo pawb o honom sy'n ein pro-
 " ffessu a'n galw ein hunain yn Grifftianogion, ein tywys
 " ar hyd ffordd y Gwirionedd, a chynnal y ffydd mewn
 " undeb Yspryd rhwymyn tangneddef ag uniondeb buch-
 " edd : Dyro ini y cyfryw ddwys ymfynniad ar werth-
 " fawrogrwydd ein *Breintiau* crefyddol, ag a wnâ ini
 " lynu wrth dy *Eglwys* sefydledig yn ddi-dramgydd
 " hyd farw, ie a thros farw er ei mwyn,— a datcan ein
 " fyddlondeb a'n diolchgarwch wrth dduwiol ffrwythlon-
 " deb a Sancteiddrwydd ein buchedau : Teilyngu o honot
 " ddwyn i'r ffordd wir bawb ar a aeth ar gyfeiliorn ag
 " a dwyllwyd,— fel y byddom oll yn gydaelodau anwyl
 " o'r un Corph Ysprydol, heb ddim ymryson rhngom
 " mwyach, ond yn unig am y mwy a'i oſtyngeiddrwydd
 " a'i gariad a'i ddaioni ymhob modd, ag yn un gorlan
 " tan yr un Bugail bendidedig, Jesu Crist. Amen.

24 DE 67
 F I N I S.

